PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/tfts

Adran Astudiaethau

Theatr, Ffilm a Theledu

Gweithio mewn Partneriaeth

skillset Media Academy Partner

Design: Simon Banham with Quarantine

Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau a sefydliadau yn tueddu i feddwl am brifysgolion fel sefydliadau academaidd sydd wedi'u hysgaru oddi wrth y byd diwydiannol. Rydym yn ymfalchïo, wrth gwrs, yn ansawdd yr addysgu, dysgu ac ymchwilio yn ein hadran – ond rydym hefyd yn ymwybodol o rôl gynyddol prifysgolion fel pwerdai sy'n gallu cydweithio mewn partneriaeth â diwydiant er budd y naill a'r llall.

Fel un o'r adrannau prifysgol mwyaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig, rydym yn awyddus i gydweithio'n agos â'n partneriaid mewn diwydiant ac i gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd. I ni, mae diwydiant yn golygu'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol – theatr a'r celfyddydau perfformio, cynhyrchu ffilm a fideo, darlledu teledu a radio, gweithgareddau ar-lein, a pholisi'r celfyddydau a'r cyfryngau. Mae gan yr Adran amrywiaeth o gyfleusterau, adnoddau ac arbenigedd yn y meysydd hyn, gan gynnwys cynllunio gweithiau theatr, senograffi, hyfforddiant llais ac actio, cyfarwyddo ar lwyfan ac mewn stiwdio deledu, golygu fideo a sain, gwaith camera a rheoleiddio darlledu.

Bydd modd i chi ddarllen rhagor am ein gwaith yn y ddogfen hon, ond rydym hefyd yn awyddus i glywed oddi wrthych chi. Os ydych yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru – i gwmni cyhoeddus neu breifat, i gwmni nid-er-elw, corfforaeth neu sefydliad cyhoeddus – neu os ydych chi'n unigolyn yn gweithio yn y diwydiant, cysylltwch â ni. Ein nod yw meithrin cysylltiadau agosach rhwng yr Adran a'r gymuned fusnes, ac i gynyddu arloesi a dealltwriaeth yn ein maes. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi mewn partneriaeth greadigol.

Yr Athro Adrian Kear
Pennaeth yr Adran

Ymarfer Asesiad Ymchwil 2008
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu Prifysgol Aberystwyth

- 30% o'r ymchwil o'r "safon uchaf yn fyd-eang" (4)*
- 30% o'r ymchwil o "safon ryngwladol ragorol" (3)*
-20% o'r ymchwil o "bwysigrwydd rhyngwladol"(2)*

Yr Adran: Ein Cenhadaeth

Mae gan yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu rôl allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach wrth addysgu ac ysbrydoli unigolion sy'n mynd ymlaen i ragori yn y Diwydiannau Creadigol. Mae'r Adran yn anelu at ddiwallu anghenion a dyheadau amrywiol ei myfyrwyr a'i rhanddeiliaid, ar yr un pryd â deall yr amgylchiadau – sef y tirlun cymdeithasol a diwydiannol - y bydd ein myfyrwyr yn chwilio am waith ynddynt ac y bydd ein staff yn cyfrannu eu harbenigedd ynddynt. Mae'r Adran felly am ymgysylltu â phartneriaid allanol i sicrhau fod ei harferion yn parhau i gyseinio â'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol yn ogystal â'r cyd-destun cymdeithasol ehangach.

Mae'r Adran yn ymrwymedig i gynnal ymchwil o'r radd flaenaf ac i ddarparu cyrsiau arloesol ar hyd yr ystod o ddisgyblaethau a gynigir ganddi, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Ymfalchïa ei bod yn meithrin ac yn datblygu ysgolheigion ac arweinwyr y diwydiant yn y dyfodol. Credwn yn gryf na ddylid cael unrhyw rwystrau i'r berthynas ffrwythlon rhwng y byd academaidd a diwydiant: dylai'r naill gyfoethogi'r llall, ac rydym yn awyddus i ddatblygu ffyrdd y gellir cyflawni hyn trwy ddysgu, ymchwil a gwaith partneriaeth. Ein bwriad yw meithrin cyfnewid gwybodaeth ac arloesi ar lefel genedlaethol, ryngwladol.

Rydym yn mynd ati i sicrhau ein bod yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'n graddedigion ar gyfer cael eu cyflogi mewn economi wybodaeth fyd-eang. Rydym yn ymwybodol eu bod yn ddinasyddion byd-eang sy'n elwa o ddeall arferion gwahanol ym myd y theatr, ffilm a theledu, ac sy'n deall y byd digidol, aml-lwyfan y byddant yn byw ac yn gweithio ynddo. Mae proffil ac enw da'r Adran yn dibynnu ar yr hyn a gyflawnir gan ei staff wrth addysgu ac ymchwil, ond daw hefyd yn sgil llwyddiannau ac ansawdd ei graddedigion. Ein cenhadaeth yw cynnal a meithrin ein henw da fel canolfan ryngwladol o ragoriaeth academaidd ac i rannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth â'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol.

Design: Simon Banham with Quarantine

Cyfleusterau

Cynigia'r Adran amrywiaeth o gyfleusterau ac adnoddau proffesiynol, ac mae'r rhain yn cynnwys:

skillset Media Academy Partner

- tri gofod theatr sy'n llawn offer, ac sydd â seddi i tua 100 o bobl ym mhob un, gan gynnwys Theatr y Castell (mae prosiect adnewyddu ac ailddatblygu sylweddol ar y gweill yno)
- ystafelloedd cyfryngau digidol newydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer gwaith cynhyrchu a golygu digidol
- tair stiwdio ymarfer, pob un â llawr â sbringiau a chyfleusterau technegol
- stiwdio o'r radd flaenaf sy'n ymroddedig i ymchwil perfformio ac ymarfer theatr arbrofol
- oriel a stiwdio deledu ddigidol manylder uwch/HD
- 36 o ystafelloedd golygu digidol a manylder uwch a mwy na 40 o gamerâu digidol manylder uwch sydd i safon y diwydiant
- stiwdio sain ddigidol sydd ag adnoddau golygu a recordio digidol aml-drac uwch, a llinell ISDN sydd â chodec ddeuol
- Canolfan adnoddau ymchwil perfformio – set unigryw o gasgliadau o lyfrau a deunyddiau clyweledol ar theatr a pherfformio byd-eang
- Darlithfeydd sydd â chyfleusterau sgrinio yn integredig ynddynt
- Yn agos o ran lleoliad ac yn cydweithio â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o bedair llyfrgell adnau hawlfraint yn y Deyrnas Unedig, ac sy'n cynnwys yr Archif Genedlaethol Sgrin a Sain
- Mae cyfleusterau pellach ar gael drwy ein partneriaethau â Boomerang+ PLC, sef cwmni cynhyrchu teledu annibynnol; Canolfan Celfyddydau Aberystwyth; a Theatr Arad Goch, sef sefydliad theatr yn Aberystwyth sydd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn ddiweddar. Mae stiwdios a swyddfeydd BBC Cymru yn y Canolbarth hefyd wedi'u lleoli yn yr Adran.

Trosglwyddo Gwybodaeth, DPP a Phrosiectau Eraill

Trosglwyddo Gwybodaeth

Mae sawl math o weithgaredd trosglwyddo gwybodaeth. Y rhai mwyaf cyffredin efallai yw'r rhai cwmnïoedd 'deillio' ('spin-outs') pan gaiff cwmni annibynnol ei sefydlu gan adran brifysgol neu pan fo cwmni yn gwneud defnydd masnachol o ymchwil academaidd. Yn y celfyddydau, mae corff enfawr o wybodaeth a allai fod yn werthfawr yn y cyd-destun trosglwyddo gwybodaeth, gan ddangos gwerth ymchwil wrth ei ledaenu a'i ddefnyddio'n ehangach.

Yn 2008, er enghraifft, lluniodd yr Adran bartneriaeth strategol tair blynedd â grŵp cynhyrchu'r cyfryngau Boomerang+. Fel partneriaid, rydym yn rhannu a chyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd. Y nod yw datblygu arloesi mewn darlledu aml-lwyfan ac i helpu'r cwmni i dyfu. Rydym hefyd yn cystadlu am gyllid newydd mewn ymchwil sy'n berthnasol i'n staff academaidd ac i'r cwmni.

Un enghraifft o fanteision gweithio mewn partneriaeth yw cais llwyddiannus yr Adran i gael arian Partneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth. Cafwyd cyllid o £ 82,585 gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r cynllun KTP, a defnyddir yr arian ar gyfer prosiect i ymchwilio i ddewisiadau gwylio teledu ac arferion cyfryngau aml-lwyfan ymhlith plant 7-11 oed, gyda'r nod o greu model ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno rhaglenni teledu i blant. Caiff y prosiect ei oruchwylio gan gynhyrchydd gweithredol yn y cwmni a Dr Merris Griffiths yn yr Adran ThFTh. Mae'r gwaith yn adeiladu ar ymchwil a wnaed gan Dr Griffiths i ddewisiadau gwylio plant ac yn rhoi budd strategol ac ariannol i'r cwmni.

Mae'r Adran wrthi'n ystyried datblygu prosiectau trosglwyddo gwybodaeth eraill ym mhob pwnc a maes sydd ganddi. Mae nifer o ffyrdd y gall yr Adran gyfuno arbenigedd â chwmnïau a sefydliadau allanol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu naill ai eu busnesau neu weithgareddau eraill yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol. Gall Partneriaethau amrywio o ymchwilio i agweddau ar bolisi darlledu Ewropeaidd drwy'r Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant i ymchwilio i draddodiadau actio penodol neu arddulliau cyfarwyddo drwy ddefnyddio archif helaeth y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Perfformio.

Mae ffurfiau gwahanol o grantiau Trosglwyddo Gwybodaeth ar gael oddi wrth Gynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig:

- Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth – mae'r rhain fel arfer yn bartneriaethau ffurfiol, hir dymor.
- Cymrodoriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth – mae'r rhain yn galluogi staff academaidd i gydweithio â chwmnïau allanol.
- Ysgogyddion Trosglwyddo Gwybodaeth (catalysts) – mae'r rhain yn debyg i'r gymrodoriaeth ond wedi'u hanelu at sefydliadau llai.

Mae pob cynllun yn rhoi cyfleoedd ariannol a chydweithio i'r ddwy ochr. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ymchwil yr Adran ar gael ar ein gwefan www.aber.ac.uk/cy/tfts/ neu gallwch gysylltu â ni i drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Prosiectau a Chytundebau

Mae'r Adran yn datblygu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sydd wedi'i hanelu at bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol. Ym mis Awst 2009, llwyddom (mewn partneriaeth a Phrifysgolion eraill o fewn Academi Sgrin Cymru Skillset ac Academi Cyfryngau Cymru) i gael grant sylweddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch i ariannu cyfres o gyrsiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant. Anelir y cyrsiau hyn yn benodol at helpu'r sector diwydiannau creadigol drwy'r dirywiad economaidd ac fe gânt eu dyfarnu o dan y Fenter Cymorth Economaidd. Mae'r gwaith yn ddatblygiad pellach ar ein statws Academi Skillset a chaiff y prosiect ei farchnata fel Academi+.

Mae'r Adran wedi llwyddo hefyd wrth dendro am waith cytundebol allanol, ac mae'n ceisio datblygu mwy o gysylltiadau diwydiant o'r math hwn. Ymysg y meysydd sydd o ddiddordeb inni mae sgiliau theatr technegol, actio a chyfarwyddo, golygu a chyfarwyddo teledu, ac agweddau ar bolisi a rheoleiddio'r celfyddydau a darlledu. Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith allanol:

Cynhyrchu Ffilm

Yn 2009, comisiynwyd y darlithydd John Burgan i gynhyrchu ffilm fer ynghylch dyfodol-dim -carbon ar gyfer y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth. Cafodd y ffilm ei sgrinio am y tro cyntaf yn y Smithsonian yn Washington ym mis Mehefin 2009 fel rhan o Wyl Cymru.

Ymchwil i Gynulleidfa

Yn 2008, cwblhaodd yr Athro Martin Barker brosiect ar ymchwil i gynulleidfaoedd ar gyfer Bwrdd Categoreiddio Ffilmiau a Fideo Prydain (BBFC), sef prosiect o'r enw "Trais Rhywiol mewn Sinema Gyfoes", gan edrych ar amrywiaeth o ffilmiau sydd wedi codi anawsterau o ran eu categoreiddio. Yn 2009 datblygwyd y cydweithredu hwn ymhellach drwy ddyfarniad o Gyd-ddoethur gan yr AHRC i'w wneud ar y cyd â'r BBFC.

Arts & Humanities Research Council

Rheoleiddio Darlledu

Y darlithydd Elin Haf Gruffydd Jones sy'n arwain yr Uned Ymchwil a Monitro Cydymffurfiaeth Darlledu. Mewn cydweithrediad â Sefydliad Thomson a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r uned hon yn monitro allbwn S4C yn ddyddiol am unrhyw dorri posibl ar reoliadau darlledu. Caiff y contract monitro ei ddyfarnu gan S4C fel rhan o broses dendro agored.

Hyfforddi Llais

A hithau'n un o gymrodyr addysgu'r Adran ThFTh, caiff Joan Mills ei chydnabod fel un o diwtoriaid llais mwyaf blaenllaw y Deyrnas Unedig. Mae ganddi 20 mlynedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Gŵyl Ryngwladol y Llais ac mae wedi bod yn ymgynghorydd llais i nifer o sefydliadau.

Dyfarniadau Cyd-ddoethuriaeth

Mae gan yr Adran hefyd ddiddordeb mewn cydweithio â chwmnïau i wneud cais ar gyfer Dyfarniadau Cyd-ddoethuriaeth yr AHRC ar gyfer prosiectau PhD sydd ag ymchwil o fudd i sefydliad allanol. Mae cydweithredu ar hyn o bryd yn cynnwys cyd-oruchwylio â'r BBFC, National Theatre Wales, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Rydym yn croesawu ymholiadau gan gwmnïau preifat, corfforaethau a sefydliadau cyhoeddus, cwmnïau theatr, cyrff nid-er-elw ac unigolion sy'n dymuno ystyried y posibilrwydd o weithio gyda ni.

Cynadleddau a Digwyddiadau

Bob blwyddyn, mae'r Adran yn trefnu amrywiaeth o gynadleddau a digwyddiadau sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus.

2009

- Cynhadledd Rhaglen Tirwedd ac Amgylchedd yr AHRC 2009 *'Living Landscapes'* - Cynhadledd ryngwladol ar berfformio, tirwedd ac amgylchedd 18-21 Mehefin 2009.
- Cynhadledd Hanes y Cyfryngau / IAMHIST *'Ofnau Cymdeithasol a Braw Moesegol',* 8-11 Gorffennaf 2009.
- *'Gwneud a Meddwl: Perfformio ac Athroniaeth fel Cyfranogiad',* symposiwm wedi'i drefnu gan Weithgor Rhyngwladol Perfformio ac Athroniaeth PSi, 31 Ionawr 2009.
- Cynhadledd y Gymdeithas Cyrsiau mewn Cynllunio Theatr (ACTD), *'Moeseg, Cyflogadwyedd ac Economeg: Addysgu Cynllunio Theatr yn yr 21ain ganrif*, 2-4 Gorffennaf 2009.

- Cynhadledd Gŵyl Ryngwladol Giving Voice, *'Harmonic Accord: Encounters Through Song',* 18-26 Ebrill 2009, CPR.
- *Celfyddyd Theatr Howard Barker* 10-12 Gorffennaf 2009

2008

- *'Aberystwyth in Flux 1968-2008'*: ail-lwyfannu'r Fluxconcert gan ac ar gyfer Fluxus, 29 Tachwedd 2008.
- *Prosiect Archif Brith Gof: Rhwng Cof ac Archif*, 6 Rhagfyr 2008.
- Cynhadledd Cyfrwng 2008: *'Llwyfannau Newydd',* 1-2 Mai 2008.
- *Symposiwm Ed Thomas*
- Gŵyl Ryngwladol Giving Voice: *'Breath, Inspiration, Voice',* 27 Mawrth-1 Ebrill 2008, CPR.
- Symposiwm y Theatr Genedlaethol: *Pwy sydd angen Theatr Genedlaethol?'* 5 Hydref 2008.

Gwefannau eraill yr Adran

www.performance-wales.org

Proisect ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddarganfod ac archifio hanes Celf Perfformio yng Nghymru

www.ynyffram.org

Adnodd addysgu ar gyfer cynlluniau gradd ffilm a theledu drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n canolbwyntio ar ffilmiau nodwedd Cymraeg

Cwmnïau yn Cydweithio, Cwmnïau Deillio a Phartneriaethau

Gall cwmnïau ddewis creu partneriaeth hirdymor gyda'r Adran (spin-in) os oes cydberthynas gref rhwng eu gweithgareddau busnes hwy a'n harbenigedd ymchwil ninnau. Caiff ein graddedigion ein hunain eu hannog hefyd i greu cwmnïau deillio (spin-out) sydd hefyd â pherthynas agos â'r Adran. Dyma rai o'n partneriaid yn y cyswllt hwn:

In the Dark Productions

Sefydlwyd y cwmni yn 2003 gan raddedigion yr adran ThFTh, sef Stuart Kershaw a Samantha Fazakerley. Mae eu ffilmiau dogfen, sy'n para cyn hired â ffilmiau mawr, wedi ennill sawl gwobr mewn gwyliau ffilm. Mae'r cwmni wedi datblygu safle arbenigol drwy ffilmio digwyddiadau chwaraeon eithafol, gan gynnwys taith La Mondial ar draws yr Iwerydd yn 2008, taith a dorrodd y record byd.

T: 0845 8388 458
E: info@inthedarkproductions.co.uk
G: www.inthedarkproductions.net

FFAB:UK

Mae FFAB yn gwmni ffilm, teledu a'r cyfryngau newydd a sefydlwyd ym 2003 gan un o'n graddedigion, Phil Moran. Mae'r cwmni wedi ennill gwobrau am ei ffilmiau byr, gan gynnwys 11 Missed Calls a enillodd wobrau Cyfarwyddwr Gorau a Ffilm Orau 2009 yng ngŵyl ffilm DIY yn Los Angeles.

FFAB:UK, y Cambria, Ffordd y Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AZ

T: +44 (0)845 226 9404
E: info@ffab.co.uk
G: www.ffab.co.uk

Pixel Foundry : Culture Colony/Y Wladfa Newydd

Dyma gwmni teledu a chynhyrchu fideo sy'n cynhyrchu rhaglenni dogfen ar gyfer darlledu yn ogystal â fideos ar gyfer busnesau a sefydliadau. Mae ei gleientiaid yn cynnwys S4C, ITV Cymru, BBC Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Sefydliad Materion Cymreig, ELWa, Dawns Powys a Rhwydwaith Garddwriaeth Cymru. Yn 2009, symudodd y cwmni i un o'r Unedau Creadigol a gynlluniwyd gan Stiwdios Heatherwick ar gampws Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

Uned Greadigol 08, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DE

T: +44 (0)1654 761361
E: pete@pixelfoundry.co.uk
G: www.pixelfoundry.co.uk / www.culturecolony.com

Silverspoon Films

Mae Silverspoon Films yn cynhyrchu fideos ar gyfer busnesau a sefydliadau i'w defnyddio mewn gwaith hyrwyddo a hysbysebu, recriwtio a hyfforddi, addysg a gwybodaeth, cynadleddau a digwyddiadau. Mae cleientiaid yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru a Sefydliad Materion Cymreig. Fel rhan o'i phecyn deillio, symudodd y cwmni i un o'r Unedau Creadigol ar gampws Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn 2009.

Uned Creadigol 09, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DY

T: +44 (0) 800 520 0946
E: info@silverspoonfilms.co.uk
G: www.silverspoonfilms.co.uk

FILM 15

Mae FILM 15 Productions Cyf, sefydliad bartner, yn arbenigo mewn ymchwilio, datblygu a darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â ffilmiau ar gyfer pobl ifanc yng Nghanolbarth Cymru. Ers ei sefydlu yn 2005, mae'r sefydliad wedi gweithio gyda mwy na 300 o bobl ifanc i gynhyrchu bron i 50 o ffilmiau. Manteisia FILM 15 ar gyfleusterau stiwdio'r Adran ar gyfer cynyrchiadau.

Cynyrchiadau FILM 15, Brynawel, Ystad Plas Llwyn Owen, Llanbryn-mair, Powys, SY19 7BE.

T: +44 (0) 1650 521615
E: em@emmamacey.co.uk
G: www.film15.org.uk

Blaengar

Mae Blaengar yn sefydliad celfyddydol nid-er-elw, ac fe'i sefydlwyd gan grŵp bychan o artistiaid addawol. Ei nod yw cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd ar gyfer artistiaid cyfoes rhyngddisgyblaethol yn y canolbarth. Maent yn gweithio drwy berfformio, gosod, cerflunwaith a'r cyfryngau newydd a hynny yn bennaf yn nhirwedd canolbarth Cymru. Cnewyllyn Blaengar yw dau artist a grŵp perfformio o'r enw 'WhiteRope' sy'n seiliedig yng Nghaerdydd ac Aberystwyth.

E: mail@alicebriggs.co.uk
G: http://www.blaengar.org/page2.htm

Swyddog Deillio Prifysgol Aberystwyth

Mae gan y Brifysgol Reolwr Deillio (Spinout Manager) a'i waith ef yw rhoi cyngor ymarferol ac ariannol. Mae modd i gwmnïoedd sy'n deillio o ymchwil a chwmnïoedd sy'n dod atom gan ysbrydoli ymchwil (spinouts a spinins) gael cymorth drwy gynllun mentora.

ABERYSTWYTH UNIVERSITY
means business

T: +44 (0) 1970 622203
E: awo@aber.ac.uk
G: www.aber.ac.uk/meansbusiness

Unedau Busnesau Creadigol Canolfan Celfyddydau Aberystwyth

Mae rhai o'n cwmnïoedd sydd wedi deillio o'n hymchwil yn elwa o fod wedi'u lleoli yn yr Unedau Busnesau Creadigol newydd yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth, unedau a gynlluniwyd gan Thomas Heatherwick.

Partneriaid Ymchwil yr Adran

Mae'r Adran yn gartref i ddau gorff ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol sef y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Perfformio, a Sefydliad Mercator ar gyfer y Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant.

Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Perfformio

Sefydlwyd y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Perfformio (CPR) yn 1988 i ddatblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion y theatr yn ei ystyr ehangaf. Mae ei rhaglenni gwaith yn cyfuno cydweithredu, cydweithio a chyfnewid diwylliannol, hyfforddiant ymarferol, addysg ac ymchwil, perfformio, cynhyrchu a hyrwyddo, dogfennau a chyhoeddi, gwybodaeth ac adnoddau

CPR CENTRE FOR PERFORMANCE RESEARCH

www.thecpr.org.uk

Sefydliad Mercator ar gyfer y Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant

Cafodd Sefydliad Mercator ar gyfer y Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant ei sefydlu er mwyn casglu, storio, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth drwy rwydwaith dogfennaeth a gwybodaeth ar gyfer ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n arwain nifer o rwydweithiau a phrosiectau Ewropeaidd a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd a sefydliadau celfyddydol ledled Ewrop (gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, a'r Cyngor Prydeinig). Mae ei bartneriaid yn cynnwys sefydliadau academaidd, busnesau bach a chanolig a sefydliadau cyhoeddus mewn dros 30 o wledydd.

SEFYDLIAD MERCATOR
mercator
MERCATOR INSTITUTE

www.aber.ac.uk/mercator

Arbenigedd ac Ymgynghoriaeth ar y Cyfryngau

Gyda mwy na 60 o aelodau o staff, gall yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu gynnig ystod eang o arbenigedd ar amrywiaeth o bynciau. Mae rhestr lawn o staff a'u diddordebau ymchwil ar gael ar ein gwefan, ond dyma flas o'r profiad a'r wybodaeth sydd ar gael yn yr Adran.

Ymchwil Perfformio



Yr Athro Adrian Kear: Moeseg perfformio; theori beirniadol; athroniaeth a seicoddadansoddi theori feirniadol; theatr Ewropeaidd avant-garde.

Yr Athro Richard Gough: Ymchwil perfformio; anthropoleg theatr; dramäwriaeth gymharol; ymarfer cyfarwyddo.

Yr Athro Mike Pearson: Theori ac ymarfer perfformio; dramäwriaeth; ymchwil ryngddisgyblaethol mewn archaeoleg, daearyddiaeth a llên gwerin.

Simon Banham: Senograffi cyfoes; cynllunio opera; perfformiadau wedi'u dyfeisio.

Richard Downing: Cynllunio cyfoes mewn perfformiadau; senograffi gyda chymorth cyfrifiadur; arferion cyfarwyddo.

Jill Greenhalgh: Theatr a pherfformio cyfoes gan fenywod; perfformiad wedi'i ddyfeisio.

Dr Heike Roms: Arferion perfformio cyfoes; y theatr ôl-ddramatig; archifo perfformiad; theatr a pherfformio yng Nghymru.

Dr Sabine Sörgel: Theatr a pherfformio ol-drefedigaethol; dawns gyfoes a dawns theatr, theatr a defod; hunaniaeth a pherfformiad.

Dr Carl Lavery: Y tirlun a pherfformio; theatr gyfoes Ffrengig; theatr a'r gwleidyddol; cerdded fel perfformiad.

Dr Andrew Filmer: Lle a pherfformiad; pensaernïaeth y theatr; y gofod tu ôl i'r llwyfan; creu yn fyrfyfyr.

Ymchwil Drama a Theatr



Yr Athro David Ian Rabey: Drama gyfoes Brydeinig a Gwyddelig, theatr a chymdeithas.

Dr Alison Forsyth: Addasiadau o ddramâu'r hen fyd; esboniadaeth perfformio a thestun; drama ddogfen.

Dr Stephen Greer: Damcaniaeth a theatr hoyw a lesbiaidd, theatr gymhwysol, perfformio rhyngweithiol a chydweithredol, creu yn fyrfyfyr.

Dr Karoline Gritzner: Drama gyfoes Brydeinig; theori feirniadol, estheteg, seicoddadansoddi a'r theatr.





Ymchwil Ffilm a Theledu

Yr Athro Martin Barker: Ymchwil i gynulleidfa cyfryngau; sensoriaeth a dadleuon cyhoeddus ynghylch ffilmiau a chyfryngau eraill; addasiadau a thrawsnewidiadau'r cyfryngau; Hollywood gyfoes.



Yr Athro Tom O'Malley: Hanes, rheoleiddio a pholisïau'r cyfryngau; y cyfryngau yng Nghymru.

John Burgan: Y cof; defnydd creadigol ar archif; croesi ffuglen ddogfennol a'r ffilm draethawd.

Dr Daniel Chandler: Portreadau o hoywon ar sgrin; semioteg gweledol rhywedd; semioteg hysbysebu; hunaniaeth rhyw ar-lein.

Dr Glen Creeber: Dramâu teledu a datblygiadau ar-lein.

Dr Kate Egan: Sinema Brydeinig; y ffilm arswyd; astudio genre; sensoriaeth ffilm; hanes ffilm; astudiaethau'r gynulleidfa a derbyniad; y cof a hiraeth; diwylliant ffans.

Dr Merris Griffiths: Plant a'r cyfryngau; llythrennedd y cyfryngau; portreadau'r cyfryngau o blant a phlentyndod.

Dr Jamie Medhurst: Hanes a pholisi darlledu; hanes y ffilm ddogfennol; sinema Brydeinig, teledu a hunaniaeth genedlaethol.

Dr Paul Newland: Sinema Brydeinig; portreadau o Lundain mewn llenyddiaeth a ffilm (yn enwedig yr East End); artistiaid gweledol a gwneuthurwyr ffilmiau avant-garde o Brydain.

Richard O'Sullivan: Gweithiau fideo sy'n astudio gwead tirwedd ac ystyron lle; cyfrwng y fideo, canfyddiad gweledol a dealltwriaeth ddiwylliannol.

Dr Jamie Sexton: Ffilmiau gwahanol ac arbrofol; y teledu a chyfryngau cysylltiedig; hanes ffilm a theledu Prydeinig; y cyfryngau digidol.

Dr Sarah Thomas: Hanes ffilmiau; sinema glasurol Hollywood; actorion y sgrin: perfformiad, llafur ac enwogrwydd; hanes ac arddull radio America - 1930-1950.





Theatr Gymraeg ac Ymchwil i'r Cyfryngau

Yr Athro Elan Closs Stephens: Polisi darlledu a'r celfyddydau yng Nghymru; dadansoddi ffilm a theledu; theatr yng Nghymru.

Margaret Ames: Dawns gymunedol; therapi dawns; perfformiad wedi'i ddyfeisio.

Dr Anwen Jones: Theatr Ewropeaidd; theatr yn Iwerddon; theatr Gymraeg.

Elin Haf Jones: Cyfryngau'r ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop; rheoleiddio a pholisi darlledu mewn perthynas â chenhedloedd heb wladwriaeth a lleiafrifoedd ieithyddol yn yr UE.

Dr Roger Owen: Theatr a pherfformio cyfoes yn Gymraeg; hanes theatr Gymraeg

Dr Dafydd Sills-Jones: Y cyfryngau Cymraeg; hanes y cyfryngau; theori a chynhyrchu rhaglenni a ffilmiau dogfen.

Dr Kate Woodward: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg; ffilmiau cynharaf S4C; sinema Gymreig yn y 1960au.

Ein Bwrdd Ymgynghorol

Mae gan yr Adran Fwrdd Ymgynghorol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol blaenllaw yn y diwydiant theatr, ffilm a theledu. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth yr Adran o fyd cyfoes y diwydiannau creadigol, ar yr un pryd hefyd â darparu cysylltiadau a chyngor gwerthfawr.

Aelodau Allanol:

Ms Sioned William (Cadeirydd)	Cynhyrchydd, Cyn-Bennaeth Comedi rhwydwaith ITV
Mr Janek Alexander	Cyfarwyddwr, Canolfan Celfyddydau Chapter
Mr Tim Baker	Cyfarwyddwr, Theatr Clwyd
Ms Sue Balsom	Francis Balsom Associates
Mr Peter Edwards	Cadeirydd Asiantaeth Ffilm Cymru
Mr Huw Eurig	Rheolwr Gyfarwyddwr Boomerang+ plc
Dr Kevin Higgins	Cyfarwyddwr, Cyngor Prydeinig Cymru
Mr R. Arwel Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Mr Keith Jones	Pennaeth Rhaglenni Cymraeg a Chyfryngau Newydd, BBC Cymru
Mr Michael McCarthy	Cyfarwyddwr, Theatr Cerdd Cymru
Mr Mark Reid	Pennaeth Addysg, Sefydliad Ffilmiau Prydain
Dr Ceri Sherlock	Golygydd Comisiynu y Celfyddydau, BBC Cymru
Mr Jeremy Turner	Cyfarwyddwr, Cwmni Theatr Arad Goch
Ms Jacqui Weatherburn	Is-bennaeth, Coleg Ceredigion

Aelodau'r Adran

Yr Athro Adrian Kear	Pennaeth yr Adran
Yr Athro Mike Pearson	Cyfarwyddwr Ymchwil
Yr Athro Elan Closs Stephens	Cyfarwyddwr Menter a Throsglwyddo Gwybodaeth
Dr Jamie Medhurst	Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu
Dr Kate Woodward	Hyrwyddwr Menter Academaidd
Ms Kathleen Williams	Rheolydd yr Adran

Manylion Cysylltu

Manylion Cyffredinol
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad Parry-Williams
Aberystwyth SY23 3AJ
T: +44 (0) 1970 622828
Ff: +44(0) 1970 622831
E: tfts@aber.ac.uk
G: www.aber.ac.uk/tfts

Yr Athro Adrian Kear
Pennaeth yr Adran
T: +44 (0) 1970 622828
E: ack@aber.ac.uk

Yr Athro Elan Closs Stephens
Cyfarwyddwr Menter a Throsglwyddo Gwybodaeth yr Adran
T: +44 (0) 1970 628492
E: ecs@aber.ac.uk

Dr Kate Woodward
Hyrwyddwr Menter Academaidd
T: +44 (0) 1970 628686
E: klw@aber.ac.uk

Ceris Medhurst-Jones
Gweinyddydd Ymchwil,
Menter a Throsglwyddo Gwybodaeth
T: +44 (0)1970 628648
E: ekj@aber.ac.uk

Os ydych angen tocynnau di-dâl i unrhyw gynhyrchiad neu sgriniad, cysylltwch â
Mr Nick Strong, nbs@aber.ac.uk

181109 - 13307